O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 551 (Cy. 61)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Carmeltown, Glynebwy, Blaenau Gwent) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed 2013 *22 Chwefror*

Yn dod i rym *4 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Carmeltown, Glynebwy, Blaenau Gwent) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.— Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19.00 o'r gloch ar 4 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 wrth Gylchfan Carmeltown ac i'r dwyrain ohoni ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.